EPT-07-01 (min)

ARD-07-01(min)

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mawrth 24 Ebrill 2001 |
| Amser: | 11:00 am hyd 1:00 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd y Cyd Gyfarfod | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates (aelod o'r Pwyllgor Amaeth hefyd) | Sir Drefaldwyn |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| John Griffiths (aelod o'r Pwyllgor Amaeth hefyd) | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig:***

| | |
|---|---|
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

| | |
|---|---|
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones, Gweinidog dros Faterion Gwledig | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rocers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

***Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:***

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Pennaeth, Gweithrediadau Clwy'r Traed a'r Genau |
| Tony Edwards | Prif Swyddog Milfeddygol (Y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd) |
| Bob Macey | Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd |
| Harvard Proseser | Ymgynghorydd Gwyddoniaeth Amgylcheddol |
| Rob Rustage | Is-adran yr Amgylchedd |
| Ronnie Alexander | Prif Ymgynghorydd Iechyd yr Amgylchedd |
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| David Walker | Rheolwr Dwr, Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) |
| Alun James | Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd, Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) |
| Paul Loveluck | Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Dr David Parker | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Johnston McNeil | Prif Weithredwr, Y Bwrdd Ymyrraeth |
| David Younger | Rheolwr y Cynllun Gwaredu ar sail Lles, Y Bwrdd Ymyrraeth |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor (Pwyll Amaeth) |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor (Pwyll yr Amgylchedd) |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, a diolchodd i swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Bwrdd Ymyrraeth am ddod i'r cyfarfod ar ôl rhybudd mor fyr.

0.2 Eglurodd fod y cyfarfod wedi ei alw i drafod materion amgylcheddol yn ymwneud â'r modd yr ymdrinnir â'r achosion o glwy'r traed a'r genau.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datgan buddiannau**

1.1 Yr oedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn oddi wrth Huw Lewis.

2. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5 Gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:-

- Mick Bates - partner mewn busnes ffermio.
- Glyn Davies - ffermwr

- Peter Rogers - ffermwr
- Elin Jones – perthnasau â busnes ffermio
- Kirsty Williams – â buddiant mewn busnes ffermio
- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fferyllydd.

**Eitem 2: Goblygiadau amgylcheddol argyfwng clwy'r traed a'r genau**

2.1 Rhoddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig adroddiad cynnydd byr. Cytunwyd ar 26 Mawrth y byddid, yn ogystal â lladd anifeiliaid ar ffermydd sy'n dioddef o'r haint, hefyd yn lladd anifeiliaid ar ffermydd cyffiniol. Erbyn hyn yr oedd y cyrff a oedd wedi cronni wedi eu clirio.

2.2 Hyd yma negyddol fu'r profion gwaed ar anifeiliaid ar y Mynydd Du. Yn sgîl hynny, y ffaith bod y cyrff a oedd wedi cronni wedi'u clirio a bod yr haint yn ymddangos ar lai o safleoedd, nid oedd angen y safle ar Fynydd Epynt mwyach.

2.3 Tynnodd y Gweinidog sylw at dri phwynt a oedd yn neilltuol i Gymru ac a oedd wedi gwneud y ffordd yr ymdrinnid â'r clefyd yn fwy effeithlon – bod mannau gwybodaeth ar gael, asesiadau milfeddygol ar y safle ar ffermydd cyffiniol a'r cyswllt atodol â ffermwyr yr oedd eu hanifeiliaid wedi'u lladd.

2.4 Pwysleisiodd yr angen i beidio â bod yn hunanfodlon ac apeliodd am i ffermwyr yn arbennig barhau i fod yn ofalus. Yr oedd bio-ddiogelwch yn dal yn hanfodol bwysig a dylid newid a diheintio dillad pan fo hynny'n briodol.

2.5 Eglurodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd mai hi oedd yn arwain ar faterion mynediad a'r amgylchedd a'i bod yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y goblygiadau o ran iechyd y cyhoedd. Talodd deyrnged i bawb a oedd a wnelo â'r broses o reoli clwy'r traed a'r genau yng Nghymru.

2.6 Wrth ymdrin â'r opsiynau gwaredu rhaid oedd ystyried yr angen i osgoi gadael cyrff anifeiliaid ar y tir lle gallent achosi problemau iechyd, osgoi cludo cyrff sydd wedi'u heintio, y prinder cyfleusterau prosesu cyrff sydd ar gael, cyfyngu lledaeniad posibl haint BSE, topograffeg leol a pha mor agos y mae pobl yn byw. Mae'r flaenoriaeth a roddir i'r gwahanol opsiynau gwaredu fel a ganlyn: yn gyntaf, prosesu'r cyrff yna eu llosgi mewn llosgyddion cymeradwy sy'n cael eu rheoleiddio, claddu mewn safleoedd priodol sydd wedi'u trwyddedu, llosgi ar y fferm a chladdu ar y fferm. Yr oedd yn holl bwysig gwaredu'r cyrff yn gyflym ond rhaid hefyd oedd sicrhau bod trefniadau wedi'u sefydlu i fonitro'r aer, dwr a phridd. I'r perwyl hwn, sefydlwyd is-gr•p monitro mewn cydweithrediad â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd ac eraill. Fel tasg gynnar i'r gr•p hwn yr oedd wedi gofyn am gofnod llawn o'r holl safleoedd llosgi a ddefnyddiwyd.

2.7 Cyn y Pasg, yr oedd y Gweinidog wedi llunio canllawiau mynediad diwygiedig.

2.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidogion am eu hadroddiadau a gwahoddodd gwestiynau am

ddau faes bras sy'n peri pryder – Mynydd Epynt a'r ffordd y mae'r cynllun lles yn cael ei weithredu. Apeliodd ar yr aelodau i gadw eu cwestiynau'n fyr ac i ganolbwyntio ar faterion amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd yn unig.

2.9 Yn ystod y drafodaeth yngl•n â dewis y safle ar Fynydd Epynt:-

- Awgrymwyd bod hygrededd y Cynulliad wedi ei niweidio oherwydd y safle a ddewiswyd a'r newid polisi yn ddiweddarach. Ai oherwydd pwysau o du trigolion lleol a bod deunydd llygrol yn gollwng o'r twll claddu y gwnaethpwyd hynny? Atebodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig nad oedd angen y twll claddu mwyach gan fod nifer y cyrff sydd i'w gwaredu yn is nag a dybiwyd yn gynharach. Argymhellwyd y safle gan Asiantaeth yr Amgylchedd fel yr un mwyaf addas a oedd ar gael er i ymchwiliad diweddarach ddatgelu holltau annisgwyl o fawr yn y graig a eglurai pam fod hylif a oedd wedi gollwng wedi'i ddarganfod mewn twll turio a ddefnyddid at ddibenion monitro;

- Gofynnwyd i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a oedd y safle wedi'i ddewis ar sail hwylustod gweinyddol cyn i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud ei asesiad a gofynnwyd hefyd am fanylion y camau a gymerwyd i ddelio â'r hylif a oedd wedi gollwng o'r twll ac effaith amgylcheddol llosgi'r cyrff a oedd yno'n barod. Mewn ymateb, dywedodd fod Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n asesu'r pum safle arfaethedig cyn i'r safle gael ei ddewis. Cyn gynted ag y darganfuwyd hylif yn gollwng, symudwyd y cyrff a'u rhoi ar bilen dros dro a chafodd yr hylif ei bwmpio allan a'u gludo oddi yno i'w drin. Byddai'r cyrff yn y twll yn cael eu llosgi bellach. Y pryder pennaf yngl•n â llygredd deuocsin o losgi oedd yr effaith bosibl ar y gadwn fwyd. Yr oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cysylltu â'i gilydd yngl•n â monitro'r safle am olion deuocsinau yn y borfa neu'r pridd ac yr oedd ansawdd yr aer yn cael ei fonitro hefyd. Byddai'r data a gasglwyd yn help i gadarnhau'r amcangyfrifon sy'n cael eu llunio drwy fodelu cyfrifiadurol ar hyn o bryd a byddent yn cael eu hasesu wedyn yn erbyn canllawiau Mudiad Iechyd y Byd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad mater hawdd yw dadansoddi deuocsinau ac y cymerai beth amser i lunio'r canlyniadau.

- Gofynnwyd i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ryddhau'r adroddiad hydroleg annibynnol am y safle i'r aelodau. Cytunodd i geisio cytundeb y Weinyddiaeth Amaeth i hynny gan mai adroddiad i'r Weinyddiaeth oedd hwn.

2.10 Wrth agor y drafodaeth ar y Cynllun Gwaredu Anifeiliaid am resymau Lles, amlinellodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig y tri math o ladd sy'n digwydd – lladd anifeiliaid ar safleoedd sydd wedi'u heintio (gyda'r cyrff yn cael eu gwaredu ar y safle neu drwy eu prosesu), lladd anifeiliaid ar ffermydd cyffiniol (gyda'r cyrff yn cael eu gwaredu ar y fferm neu ar Fynydd Epynt) a'r cynllun Lles. Rôl y Cynulliad yn y sefyllfa honno oedd cymeradwyo safleoedd claddu er mwyn gwaredu'r cyrff. Cyfrifoldeb y Bwrdd Ymyrraeth oedd rheoli'r cynllun o ddydd i ddydd. Hyd yma yr oedd pum safle gwaredu wedi eu cymeradwyo ac yr oedd tri arall o dan drafodaeth. Ar bob safle, ni châi gwaredu o dan y cynllun fod yn fwy na 5% o'r holl wastraff y bydd y safle yn ymdrin ag ef.

2.11 Yn ystod y drafodaeth, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd y Gweinidog eto wedi defnyddio'i bwer i gyfarwyddo awdurdodau lleol i ganiatáu i safleoedd tirlenwi gael eu defnyddio, ond byddai'n gwneud hynny pe bai raid;
- Dim ond cyrff nad ydynt wedi'u heintio fyddai'n cael eu gwaredu mewn safleoedd claddu gyda milfeddygon yn archwilio'r anifeiliaid am arwyddion gweladwy o'r haint cyn iddynt gael eu lladd;
- Mewn termau rheoli gwastraff, nid oedd cyrff anifeiliaid yn arbennig o anodd i'w rheoli. Mae eu cynnwys yn hysbys a châi safleoedd cymeradwy eu dewis ar y sail fod systemau addas wedi eu sefydlu i reoli hylifau rhag gollwng a rheoli nwyon ac aroglau;
- Eglurodd y Bwrdd Ymyrraeth mai dim ond ar ôl canfod safle gwaredu y câi anifeiliaid eu lladd o dan y Cynllun Lles. Felly, dylai cyrff gael eu symud oddi ar ffermydd yn syth. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n ymchwilio i'r achosion penodol a godwyd gan aelodau yngl•n â chyrff yn cael eu gadael ar ffermydd;
- Awgrymwyd wrth y Bwrdd Ymyrraeth fod yr ystyriaethau yngl•n â gwaredu yn rhai y gellid eu rhagweld ac y dylid bod wedi rhoi sylw iddynt cyn i'r cynllun ddechrau gweithredu. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer yr anifeiliaid sydd i gael eu lladd o dan y cynllun yn cyfateb yn fras i'r nifer a laddwyd ar safleoedd heintiedig a safleoedd cyffiniol. Dim ond mor gyflym ag y deuai safleoedd gwaredu ar gael y gallai'r cynllun fynd rhagddo ac, am fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gyrff anifeiliaid a heintiwyd a chyrff oddi ar ffermydd cyffiniol, yr oedd cyflymdra'r cynllun lles yn cael ei gyfyngu gan y ddarpariaeth gladdu a oedd ar gael. Yr oedd y Bwrdd yn cydnabod bod yna ddyletswydd arno, ar ôl cael cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd yngl•n ag addasrwydd safleoedd o safbwynt rheoli gwastraff, i sicrhau bod cymaint â phosibl o ddarpariaeth ar gael
- Awgrymodd yr aelodau y gellid gostwng nifer yr anifeiliaid a gofrestrwyd i'w lladd pe câi'r cyfyngiadau presennol ar symud anifeiliaid eu llacio. Atgoffodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yr aelodau mai penderfyniad i'r Weinyddiaeth Amaeth yw hwn ond cytunai ei fod am weld y cyfyngiadau'n cael eu llacio cyn gynted ag sy'n bosibl ac yn ddoeth. Mater i'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yw ymdrin ag ardaloedd heintus ac yr oedd y Prif Swyddog Milfeddygol yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r gwasanaeth;
- Cyn gynted ag yr oedd gwasanaeth lladd a gwaredu wedi'i sicrhau, câi ffermydd eu blaenoriaethu o dan y Cynllun ar sail lles anifeiliaid;
- Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a'r Bwrdd Ymyrraeth fod y cyfraddau digolledu a gynigir o dan y Cynllun Lles yn ei wneud yn opsiwn deniadol i rai ffermwyr. Anghytunodd sawl aelod â hynny;
- Eglurodd y Prif Swyddog Milfeddygol fod cyrff anifeiliaid yn llai heintus ar ôl iddynt gael eu lladd am nad oedd unrhyw blu firol yn cael eu cynhyrchu drwy anadlu allan a bod newidiadau yn y lefelau asidedd yn y corff yn lladd y firws. Yr oedd yn bosibl, serch hynny, i'r firws barhau ym mêr yr esgyrn. Cadarnhaodd hefyd nad oedd cludo anifeiliaid glân drwy ardaloedd heintiedig yn codi pryderon yngl•n â rheoli'r clefyd;
- Cytunodd y Bwrdd Ymyrraeth i ysgrifennu at Peter Rogers yngl•n â phwy sy'n gymwys i dderbyn y premiwm lladd am anifeiliaid a laddwyd o dan y cynllun.

2.12 Wrth drafod goblygiadau amgylcheddol llosgi cyrff, cytunodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd ei bod yn hanfodol parhau i fonitro safleoedd. Byddai'n cymryd arweiniad gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac eraill yngl•n â pha mor hir y dylai hynny bara. Yr oedd y Weinyddiaeth Amaeth wedi arbrofi gyda phrofion ar raddfa fach er mwyn sicrhau bod cyrff yn cael

eu llosgi mor effeithlon â phosibl, ond ni wnaed unrhyw brofion ar raddfa'r gwaredu ar Fynydd Epynt.

2.13 Pwysleisiodd Prif Weithredwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru bwysigrwydd ailagor mynediad i gefn gwlad cyn gynted â phosibl, o safbwynt economaidd ac iechyd.

2.14 Cytunai'r ddau Weinidog hefyd y byddai'n bwysig dysgu gwersi o'r ffordd yr oedd y clefyd wedi cael ei reoli.

2.15 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad a daeth â'r cyfarfod i ben.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2001**